# Minutes

## Cabinet

Date: Dydd Mercher, 12 Ebrill 2023

Time: 4.00 pm

Present: Councillors J Mudd (Cadeirydd), D Davies, D Batrouni, J Clarke, Y Forsey, D Harvey, J Hughes and L Lacey

Apologies: Councillors S Marshall

---

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Councillor Marshall.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim.

3 **Cofnodion y cyfarfod diweddaf**

Cyflwynwyd Cofnodion 22 Mawrth a'u derbyn yn amodol ar y canlynol.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies at Eitem 7 Cyfoesiad am Bwysau Allanol CDC - PGT yn cyfeirio at y Grant Datblygu Disgyblion (GDD).
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Harvey at Eitem 7 Cyfoesiad am Bwysau Allanol CDC - Cynhaliwyd sesiynau Mannau Cynnes yn ystod Rhagfyr 2022 tan fis Chwefror 2023 nid Tachwedd 2023.

4 **Datganiad tâl a gwobr**

*Ar y pwynt hwn, gadawodd yr uwch-swyddogion y cyfarfod.*

Cyfeiriodd yr Uwch-Gyfreithiwr (Cyfreithia) ar Ddeddf Lleoleiddio 2011, oedd yn mynnu bod awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr yn cynhyrchu "polisi datganiad tâl" yn flynyddol. Y mae'r ddeddfwriaeth yn gosod allan nifer o ofynion statudol y mae'n rhaid eu cynnwys mewn unrhyw ddatganiad polisi tâl. Mae'r Polisi Tâl a Gwobr yn amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran tâl a gwobrwyo yn y Cyngor. Mae hyn yn cael ei adolygu a'i adrodd wrth y Cyngor bob blwyddyn er mwyn sicrhau ateb egwyddorion tegwch, cydraddoldeb, atebolrwydd a gwerth am arian i'r awdurdod a'i drigolion. Adolygwyd Polisi Tâl a Gwobr 2023/24, ac ni chynigiwyd unrhyw newidiadau eleni ar wahân i'r codiadau arferol mewn gwerth. Nodwyd y gwnaed newidiadau i beth darpariaeth yn 2022/23 gyda chytundeb yr Aelod Cabinet priodol; adroddwyd am y newidiadau hyn wrth y Cabinet ac yna'r Cyngor. Byddai'r datganiad hwn yn dod i rym yn syth wedi iddo gael ei gadarnhau'n llawn gan y Cyngor. Yn ychwanegol at y cyfoesiad polisi tâl blynyddol, gofynnwyd i'r Cabinet ac yna'r Cyngor ystyried alinio'r cynnydd mewn gwyliau blynyddol a geir yn nyfarniad tâl yr NJC, a roed ddiwrnod yn ychwanegol o wyliau blynyddol i'r rhai oedd yn dod dan ddyfarniad tâl yr NJC o Ebrill 2023, i gynnwys hefyd brif swyddogion, er mwyn cysondeb.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod dwy eitem yn yr adroddiad i'w hargymell i'r Cyngor llawn, oedd yn gofyn i'r Cabinet adolygu ac argymell y Polisi Tâl a Gwobr ac alinio Gwyliau Prif Swyddogion i'r Cyngor.

Yr oedd Polisi Tâl a Gwobrwyo'r Cyngor am y gweithlu yn adroddiad blynyddol yr oedd yn rhaid i'r Cyngor ei fabwysiadu. Y mae'r polisi yn gosod allan y mecanweithiau mewnol o ran talu swyddogion y Cyngor ac yn rhoi cyfoesiad am unrhyw newidiadau ers ei fabwysiadu ddiwethaf yn 2022.

Yr oedd unrhyw newidiadau a wnaed dros y 12 mis diwethaf wedi eu cefnogi gan y prosesau democrataidd priodol lle byddai angen, a'u nodi yn yr adroddiad.

Y mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor yn dal i gymharu'n ffafriol â Chynghorau eraill ledled Cymru a'r DU, a rhagwelir y byddai hyn yr un fath pan fydd y Cyngor hwn yn cyfoesi 'r data tâl yn nes ymlaen y mis hwn. Yr oedd yr Arweinydd yn falch o adrodd y gwelodd y Cyngor ostyngiad yng nghymhareb y tâl rhwng y swyddogion sy'n derbyn y cyflogau isaf a'r rhai uchaf, sydd yn golygu llai o fwlch.

Yr oedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu sut yr oedd y Cyngor yn alinio gwyliau swyddogion, a thelerau ac amodau eraill, fel rhan o ymrwymiad y  Cyngor i gytundeb statws sengl yn 2015.   Yn nyfarniad cyflog 2022/23, cafodd yr holl swyddogion, ac eithrio am Brif Swyddogion, ddiwrnod ychwanegol o wyliau fel rhan o'r dyfarniad cyflog. Er mwyn sicrhau parhad o ymrwymiad y Cyngor i statws sengl, lle bo modd, argymhellwyd y dylid alinio gwyliau Prif Swyddogion hefyd i gynnwys y diwrnod ychwanegol o wyliau a ddyfarnwyd i swyddogion y Cyngor.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Cytunodd y Cynghorydd Batrouni gyda'r ddwy eitem oedd gerbron y Cabinet i'w cymeradwyo. Fel y dywedodd yr Arweinydd, yr oedd lluosydd y gymhareb rhwng yr aelod staff oedd yn derbyn y tâl isaf a'r Prif Weithredwr wedi gostwng, a'r gobaith oedd mai gostwng a wnaent eto gyda'r codiadau cyflog arfaethedig, fyddai'n gwneud pethau'n fwy cyfartal i'r holl weithwyr. Soniodd yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol hefyd y dylai'r Cyngor ymfalchïo gyda lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Yr oedd pob chwartel, o'r isaf, y canol a'r uchaf â'r ganran o'r staff oedd yn derbyn y cyflog uchaf bron yn 70% yn fenywod, gyda 71% ar y canol uwch, oedd yn llwyddiant mawr. Ni fyddai'r Cyngor yn gorffwys ar eu rhwyfau, fodd bynnag, gan wneud yn siŵr y byddant yn cynnal y safon uchel at y dyfodol.

- Yr oedd y Cynghorydd Davies yn cefnogi sylwadau cydweithwyr, a chofiodd yr adolygiad ailraddio Total Reward a gynhaliwyd yn 2015; darn mawr o waith oedd yn sicrhau'r tegwch a'r cydraddoldeb oedd wrth galon y Polisi Tâl a Gwobr. Yr oedd y ffaith fod hwn yn bolisi tryloyw a adolygwyd yn flynyddol yn rhoi hyder i'r Cabinet fod y staff yn cael eu cydnabod ym mhopeth a wnaent. Yr oedd hefyd yn dangos mwy o amrywiaeth yn y gweithlu. Gobaith yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar oedd y byddai hyn yn gosod safon i fusnesau lleol ei ddynwared.

**<u>Penderfyniad</u>**

Cabinet

1. Adolygu ac argymell i'r Cyngor y Polisi Tâl a Gwobr er mwyn cwrdd â'r gofyniad statudol am ddatganiad polisi tâl i'w gymeradwyo a'i gyhoeddi gan y Cyngor yn flynyddol.
2. Adolygu ac argymell i'r Cyngor alinio gwyliau Prif Swyddogion.

5 **Strategaeth Ddigidol**

Yr adroddiad nesaf a gyflwynodd yr Arweinydd oedd y Strategaeth Ddigidol am 2023 i 2027. Pwrpas yr adroddiad oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r strategaeth newydd.

Dyma oedd ail Strategaeth Ddigidol y Cyngor, a ddatblygwyd ar adeg pan oedd technoleg ddigidol yn gynyddol bwysig i gyflwyno gwasanaethau.

Yr oedd y strategaeth yn dilyn datblygu a chytuno ar y Cynllun Corfforaethol newydd, ac fe'i datblygwyd yn unol â dyheadau'r Cynllun Corfforaethol. Datblygwyd y strategaeth yn dilyn ymwneud helaeth â dinasyddion, busnesau, gweithwyr ac Aelodau Etholedig Casnewydd.

Yr oedd pedair thema i'r strategaeth, gyda chamau oedd yn cefnogi un neu fwy o'r themâu:

- **Trawsnewid Digidol** - Byddwn yn trawsnewid gwasanaethau trwy ddefnydd arloesol o dechnoleg ddigidol sy'n effeithiol, yn hawdd i'w ddefnyddio ac wedi ei gynllunio o gwmpas anghenion y defnyddwyr.

- **Sgiliau Digidol a Chynhwysiant** - Byddwn yn datblygu sgiliau digidol ein dinasyddion, gweithwyr a'n haelodau, ac yn cefnogi gwell mynediad at dechnoleg ddigidol.

- **Data a Chydweithredu -** Byddwn yn gwella cyflwyno gwasanaethau trwy well defnydd o ddata a mwy o gydweithredu wedi ei adeiladu ar systemau a phrosesau diogel.

- **Seilwaith Digidol a Chysylltedd -** Byddwn yn anfon seilwaith digidol a chysylltedd gwych i'r ddinas a'r cyngor.

Llywiwyd y strategaeth gan egwyddorion pwysig:

- **Arloesol** – derbyn ffyrdd newydd o weithio a thechnoleg newydd
- **Gyrrir dan ddata** - penderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail tystiolaeth gadarn
- **Canoli ar y defnyddiwr** - defnyddwyr wrth galon yr hyn a wnawn
- **Cynhwysol** – gwasanaethau ar gael i gwrdd ag anghenion unigol
- **Cydweithredol** – cydweithio yn fewnol ac allanol
- **Diogel** – systemau a data yn cael eu gwarchod
- **Gwyrdd** – technoleg ddigidol yn cynnal dyheadau sero net y cyngor

Mae'r strategaeth yn gosod allan weledigaeth y cyngor am sut y defnyddiodd dechnoleg i drawsnewid cyflwyno gwasanaethau, cefnogi gwella lles y trigolion, gwella sgiliau digidol y trigolion a galluogi busnesau i ffynnu yng Nghasnewydd.
Mae hon yn weledigaeth ddigidol uchelgeisiol sydd yn croesawu arloesedd wedi ei gyflwyno mewn partnership a'r Cyd-Wasanaeth Adnoddau a phartneriaid allweddol eraill.

Mae'n cydnabod yr angen am fod yn gyson wyliadwrus i warchod data'r cyngor rhag seibr-ymosodiadau a bygythiadau eraill.

Datblygwyd cynllun gweithredu, a cheir adroddiadau blynyddol am gynnydd yn yr Adroddiad Digidol.

Dyma rai camau cychwynnol i'w nodi:

- Gweithredu prosiect y Gronfa Band Eang Leol (CBEL) yng nghartrefi gofal preswyl y cyngor i oedolion
- Ail-ddatblygu gwefan y cyngor
- Datblygu defnydd y sefydliad o ddata fel ased ar y cyd â Hwb Gwybodaeth Casnewydd (HGC)

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- Yr oedd y Cynghorydd Batrouni yn falch iawn o'r Strategaeth Ddigidol; bu'n broses faith, a chafwyd llawer o drafodaethau gyda chydweithwyr, ac yr oedd yn hanfodol i'r Cyngor a'i

wasanaethau at y dyfodol. Yr oedd newid yn digwydd yn sydyn, ac yr oedd yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol eisiau gofalu bod Casnewydd ar flaen y gad ymhlith yr awdurdodau lleol. Nid oedd y dechnoleg yn cael ei defnyddio i'r eithaf mewn llawer o sefydliadau, ond nid oedd hyn yn wir am Gyngor Dinas Casnewydd. Byddai'n drawsnewidiad diwylliannol i bawb, gan gynnwys aelodau etholedig ac uwch swyddogion. Pwysleisiodd y Cynghorydd Batrouni rôl Deallusrwydd Artiffisial (AI) mewn gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig gyda busnesau, i'w gwneud yn haws cyflwyno gwasanaethau i bobl. Yr oedd y Cabinet, yr Arweinydd ac uwch swyddogion wedi ymrwymo i gynnal safle Casnewydd fel arweinydd yn y maes hwn. Yr oedd y Cyngor ar y blaen gyda Hwb Gwybodaeth Casnewydd a gallant yn hawdd arwain y DU yn y dyfodol agos. Yr oedd y Cynghorydd Batrouni am bwysleisio fod cynnwys y rhai nad oeddent yn gyfarwydd â thechnoleg ddigidol yn hanfodol i hyn. Gan Gasnewydd y mae'r boblogaeth ifanc sydd yn tyfu gyflymaf, ac y mae angen i'r Cyngor fod yn barod am y genhedlaeth nesaf. Y mae'r Cabinet wedi ymrwymo i'r agenda hon.

- Croesawodd y Cynghorydd Davies y Strategaeth Ddigidol ynghylch cynhwysiant fel modd o gyrchu technoleg ddigidol a'r sgiliau angenrheidiol i'w ddefnyddio'n effeithiol. Yr oedd yr Amcanion lles yn canoli ar wella sgiliau, cyfleoedd am addysg a gwaith er mwyn ceisio lleihau anghydraddoldeb cyfle. Y flaenoriaeth oedd cael plant i allu cyrchu dyfeisiadau a gallu cymryd rhan mewn dysgu arlein. Gyda hyn, rhaid oedd cael y seilwaith i ganiatáu defnyddio technoleg newydd. Dylai plant fod yn ddysgwyr uchelgeisiol er mwyn dysgu sgiliau i fynd i'r farchnad swyddi o fewn ffiniau'r gymuned, oherwydd bod cwmnïau mawr rhyngwladol gydag arbenigedd digidol yng Nghasnewydd. Yr oedd y Strategaeth Ddigidol yn hanfodol felly i beri i hyn ddigwydd.

- Diolchodd y Cynghorydd Hughes i bawb fu'n rhan o lunio'r adroddiad, gan gynnwys y swyddogion, yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet. Yr oedd datblygiadau digidol yn y ddinas yn cefnogi'r trigolion mwyaf bregus a difreintiedig. Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol hefyd y timau iechyd a gofal galwedigaethol oedd yn ymwneud a'r maes gwaith hwn. Yr oedd cyfarfodydd lle'r oedd yr Aelod Cabinet yn bresennol gyda thimau gwasanaethau cymdeithasol yn aml yn crybwyll cefnogaeth ddigidol ac AI, sy'n arwydd o'r modd mae'r Cyngor yn defnyddio hyn. Yr oedd y Cynghorydd Hughes felly'n cefnogi'r adroddiad.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Clarke at drawsnewid fel allwedd i symud ymlaen at ffyrdd newydd o weithio. O edrych ar y Strategaeth Ddigidol, yr oedd meysydd yn yr adroddiad yn cynnwys: datblygu gwefan newydd, gwella hygyrchedd dylunio yn system TG y Cyngor, gwneud y mwyaf o atebion digidol er mwyn lleihau'r defnydd o bapur, hyrwyddo a chyfeirio trigolion at wasanaethau ar-lein, cyflwyno'r cynllun benthyca dyfeisiadau tabled a chefnogi ysgolion i gyrchu dyfeisiadau. Yr oedd y rhain oll yn gamau cadarnhaol ac yn rhan fechan yn unig o'r strategaeth, oedd yn golygu bod y Cabinet, hyd yn oed mewn cyfnodau caled, yn benderfynol o symud ymlaen.

- Cefnogodd y Cynghorydd Harvey yr adroddiad a theimlai ei fod yn ffordd ymlaen. Yr oedd Covid wedi golygu bod llawer o'r datblygiadau digidol yn y Cyngor wedi digwydd yn gynt. Soniodd yr Aelod Cabinet dros Les Cymunedol y gall rhai pobl fod yn ofnus ynghylch defnyddio neu gyrchu systemau digidol. Yr oedd rhai â dyslecsia wedi dod yn ddiweddar at y Cynghorydd Harvey i ofyn sut y gallent ddefnyddio'r cyfarpar. Cynghorodd y Cynghorydd Harvey hwy i ymweld â hwb cymunedol, neu holi ffrindiau neu deulu, neu ymweld â'r llyfrgell, fod rhywun yno o hyd i helpu. Y fantais gyda gwasanaethau arlein oedd eu bod yn gyflym, ac nad oedd angen aros i rywbeth ateb neu ddigwydd, ac mai'r Strategaeth Ddigidol felly oedd y ffordd ymlaen.

**Penderfyniad**

Cymeradwyodd y Cabinet y Strategaeth Ddigidol am 2023 i 2027.

6 **Pwysau Allanol NCC - Costau Byw**

Cyflwynodd yr Arweinydd y cyfoesiad misol am y prif bwysau allanol sy'n wynebu'r cyngor, busnesau, trigolion, a chymunedau.

Yr oedd aelodau yn ymwybodol fod yr argyfwng costau byw yn cael effaith sylweddol ar y ddinas, a bod hyn wedi ei waethygu gan filiau bwyd ac ynni uwch, oed dyn effeithio ar lawer o drigolion a busnesau.

Er bod prif achosion yr argyfwng costau byw y tu hwnt i reolaeth y cyngor, yr oedd yr adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am y modd yr oedd y Cyngor yn helpu i hwyluso, cydgordio a gweithio gyda'i bartneriaid a chymunedau i liniaru rhai o'r effeithiau.

Anogodd yr Arweinydd drigolion oedd yn cael anhawster i gysylltu â'r cyngor am wybodaeth a chael eu cyfeirio at y cyngor a'r gefnogaeth sydd ar gael, yn bersonol, dros y ffôn neu trwy ymweld â'r tudalennu cefnogaeth a chyngor ar y wefan.

Byddai aelodau'n gweld o'r adroddiad fod y cyngor yn gweld cryn nifer o ymholiadau am drigolion yn gysylltiedig â'r pwysau cyson yn dilyn cyhoeddi biliau treth cyngor.

Byddai biliau trethi Annomestig Cenedlaethol yn cael eu cyhoeddi toc, yn dangos y gwerthoedd trethadwy yn dilyn yr ail-brisio a wnaed gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Amcangyfrifir y byddai tua chwarter y trethdalwyr yn gweld gostyngiad yn eu biliau ac y byddai nifer tebyg yn gweld cynnydd.

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn yng nghyd-destun codi cyfraddau llog gan Fanc Lloegr y mis diwethaf, ac nid oedd llawn effaith hyn wedi ei deimlo eto.

Fel Arweinydd y Cyngor a Chadeirydd ein partneriaeth UnCasnewydd, yr oedd yr angen i ni weithio ar y cyd yn glir.

Yr oedd gan Gasnewydd bartneriaethau cryf, ac yr oedd y rhain yn dal i liniaru rhai o'r effeithiau a deimlid gan y trigolion.

Yr oedd yr adroddiad yn rhoi manylion am rai o'r ymyriadau a hwyluswyd yn ystod y cyfnod, a gwybodaeth am ymgynghoriadau gyda thrigolion, a chydweithio yn y cyfnod sydd i ddod.

Tynnodd yr Arweinydd sylw'r Aelodau at y digwyddiad costau byw yn Theatr y Riverfront ar 26 Ebrill oedd yn cael ei gefnogi gan lawer o bartneriaid a mudiadau, i gynnig cyngor a chefnogaeth i'r trigolion wrth reoli arian a chael yr incwm mwyaf.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- Yr oedd y Cynghorydd Harvey yn edrych ymlaen at y digwyddiad yn Theatr y Riverfront ar 26 Ebrill. Yr oedd digwyddiad llynedd yn llwyddiant, gyda Dŵr Cymru yn bresennol ac yn rhoi help ariannol i'r trigolion. Yr oedd costau byw ar flaenau meddyliau pawb, gyda rhai teuluoedd yn cael trafferth bwydo eu plant a banciau bwyd yn mynd yn brin o fwyd. Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Les Cymunedol i'r Arweinydd am gefnogi trigolion trwy eu cyfeirio at y Cyngor a'r Aelodau Cabinet er mwyn rhoi cyngor am lle i gael cefnogaeth ariannol. Pwysleisiodd y Cynghorydd Harvey ei bod yn bwysig i drigolion gysylltu â'r cyngor a gofyn am gymorth oherwydd bod rhywun yno yn wastad i helpu, ac efallai nad oedd pawb yn gwybod fod ganddynt hawl i rai buddion ariannol. Anogodd y Cynghorydd Harvey y cyhoedd i fynd i'r digwyddiad yn y Riverfront i weld pa fuddion ariannol oedd ar gael.

- Cefnogodd y Cynghorydd Davies sylwadau'r Cynghorydd Harvey ac yr oedd am ganolbwyntio ar blant mewn ysgolion o ran amddifadedd. Bydd gan holl blant y Cyfnod

Sylfaen hawl i brydau ysgol am ddim, a byddai hyn yn wir am blant CA2 ar ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd. Yr oedd yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar, fodd bynnag, eisiau nodi, pan fo rhieni yn gwneud cais am brydau ysgol am ddim, y gallent hefyd fynd at y grant amddifadedd disgyblion, oedd yn golygu y gellid cael gwisg ysgol am ddim. Gallai teuluoedd ddal i wneud cais am fuddion ysgol ychwanegol, er eu bod yn derbyn prydau ysgol am ddim. Y gobaith hefyd oedd y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu prydau ysgol am ddim dros y gwyliau oherwydd bod teuluoedd angen y gefnogaeth hon o hyd.

- Soniodd y Cynghorydd Hughes ei fod yn falch fod cydweithredu yn cael ei grybwyll yn yr adroddiad ac yr oedd yn teimlo fod banciau bwyd y ddinas yn haeddu eu crybwyll yn arbennig wrth i'r heriau gynyddu. Soniodd yr Aelod Cabinet dros wasanaethau Cymdeithasol hefyd y gwaith eithriadol oedd yn cael ei wneud yn y Gyfnewidfa Garedigrwydd yng Nghaerllion oedd yn dosbarthu bwyd yn lleol, a hefyd waith Partneriaeth Werdd Caerllion oedd yn lansio rhandiroedd dros y penwythnos. Yr oedd yr enghreifftiau hyn o waith yn digwydd ledled y ddinas, ac yr oedd yn dangos ochr ofalgar y ddinas.

- Dilynodd y Cynghorydd Lacey ymlaen o'r Cynghorwyr Harvey a Hughes i ddiolch i bawb am eu gwaith caled gyda banciau bwyd. Adleisiodd yr Aelod Cabinet dros Seilwaith ac Asedau sylwadau'r Cynghorydd Harvey am annog trigolion i fynd i'r digwyddiad yn y Riverfront ar 26 Ebrill. I'r sawl na allai fynd i'r digwyddiad hwn, yr oedd y Cynghorydd Lacey a'i chydweithwyr yn y ward yn ddiweddar wedi cyfeirio trigolion at Gyngor ar Bopeth i roi help a chyngor gyda'u harian; yr oedd hyn hefyd yn golygu y gall rhai trigolion a aeth at CAB ateb i'w problemau ariannol yn syth, ac efallai na fyddai angen cefnogaeth gan y Cyngor na banciau bwyd, oedd yn gam cadarnhaol.

- Soniodd y Cynghorydd Clarke ei fod ef a'r Arweinydd wedi ymweld â'r ganolfan gymunedol ym Malpas i gyflwyno wyau Pasg, ac er bod y plant wedi mwynhau'r digwyddiad, yr oedd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol, Rheoleiddio a Thai yn ystyried y straen ar rieni gyda chostau byw, ac yr oedd felly am ailadrodd fod y digwyddiad yn y Riverfront ar 26 Ebrill yn bwysig iawn. Fe allai hyn leihau'r straen ac ysgafnhau peth o bryder rhieni. Os na allai trigolion ddod i'r digwyddiad, byddai modd iddynt gysylltu â'r cyngor.

- Pwysleisiodd yr Arweinydd fod pawb wedi ymrwymo i roi gwybodaeth i drigolion ac y byddai'r Aelodau Cabinet yn cyfeirio trigolion at gefnogaeth a ddarperid gan y Cyngor.

**Penderfyniad**

Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad ar weithgaredd y Cyngor i ymateb i'r ffactorau allanol ar gymunedau, busnesau, a gwasanaethau cyngor Casnewydd.

7 **Rhaglen Waith**

Hwn oedd yr adroddiad blynyddol rheolaidd ar y rhaglen waith.

Cynnig derbyn y rhaglen wedi ei chyfoesi.

**Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet ar y Rhaglen Waith.

The meeting terminated at Time Not Specified